**Grŵp Trawsbleidiol Cymru – Siopau Bach: Cynllun Dychwelyd Ernes (DRS)**

**Dydd Mercher 12 Gorffennaf, 12:15 – 13:15: Microsoft Teams (Ar-lein)**

**COFNODION**

**YN BRESENNOL:**

| Enw | Sefydliad | Cofnodion |
|---|---|---|
| Edward Woodall | Y Gymdeithas Siopau Cyfleustra (ACS) | EW |
| Daniel Askew | Y Gymdeithas Siopau Cyfleustra (ACS) | DA |
| Willem Van De Ven | Y Gymdeithas Siopau Cyfleustra (ACS) | WV |
| Julie James | Y Gweinidog Newid Hinsawdd | JJ |
| Rhys Thomas | Aelod o staff cymorth Sam Rowlands AS | RT |
| Tom Perry | Aelod o staff cymorth Tom Giffard AS | TP |
| Vince Tenby | Tenby Stores | VT |
| Ruth Buckley-Salmon | Ffederasiwn Cenedlaethol yr Is-bostfeistri | |
| Robin Lewis | Aelod o staff cymorth Vikki Howells AS | RL |
| Vikki Howells | AS dros Gwm Cynon | VH |
| Howard Davies | Llywodraeth Cymru | HD |
| John Halliday | Cymdeithas Manwerthwyr Annibynnol Prydain | JH |
| Gwen Patterson | Ffederasiwn y Manwerthwyr Annibynnol | GP |
| Philip Fenton | British Glass | PF |
| Laura McCormack | Cymdeithas y Llyfrwerthwyr | LC |
| Arianne Fleming | British Glass | AF |
| Rosina Robson | Y Ffederasiwn Gwallt a Harddwch Cenedlaethol (NHBF) | RR |
| Eleanor O'Brien | British Glass | EB |
| Benjamin Sullivan | Ysgrifennydd Preifat i'r Gweinidog Newid Hinsawdd | BS |
| Sarah Horner | Llywodraeth Cymru | SH |
| Seonag MacKinnon | Ffederasiwn y Manwerthwyr Annibynnol | SM |
| Ioan Bellin | Aelod o staff cymorth Rhys ab Owen AS | IB |
| Russell George | AS dros Sir Drefaldwyn | RG |

1. **Ymddiheuriadau**

Andrew Goodacre – Cymdeithas Manwerthwyr Annibynnol Prydain

Lucy Reece Raybould – British Footwear Association

2. **Croeso a chyflwyniadau**

Croesawodd VH y rhai a oedd yn bresennol, gan amlinellu'r rhaglen weithgareddau ar gyfer y Grŵp Trawsbleidiol.

3. **Siopau Lleol a'r Cynllun Dychwelyd Ernes**

Amlinellodd EW sut mae'r Cynllun Dychwelyd Ernes (DRS) yn gweithio, y datblygiadau diweddaraf mewn perthynas â'r mater hwn yng Nghymru, ystyriaethau allweddol ar gyfer manwerthwyr sy'n gweithredu'r cynllun, yn ogystal ag argymhellion i Lywodraeth Cymru o ran sicrhau bod y cynllun yn gweithio'n effeithiol.

4. **Cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes**

Cyflwynodd JJ ei hun i bawb a oedd yn bresennol. Rhoddodd drosolwg byr o'r datblygiadau diweddaraf ynghylch y cynllun arfaethedig yng nghyd-destun Llywodraeth Cymru, gan ofyn i'r rhai a oedd yn bresennol i gyflwyno cwestiynau pwysig ynglŷn â'r cynllun.

5. **Sesiwn holi ac ateb gyda'r Gweinidog**

Tynnodd VM sylw'r Gweinidog at bryderon allweddol ynghylch y gost o weithredu'r cynllun dychwelyd ernes mewn siopau a'r enillion ar fuddsoddiad. Ymatebodd JJ a HD drwy dynnu sylw at weithgarwch parhaus Llywodraeth Cymru o ran casglu adborth a mewnbwn gan fusnesau, a hynny er mwyn sicrhau bod y cynllun yn addas at y diben ac yn apelgar i fusnesau o ran ei weithredu.

Dywedodd EW wrth JJ y dylai Llywodraeth Cymru ystyried o ddifrif y cam o fapio'r cynllun yn strategol, a hynny er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei weithredu'n effeithiol mewn ardaloedd lleol ar gyfer cwsmeriaid sy'n dychwelyd eitemau a busnesau sydd am gymryd rhan yn y cynllun. Gwnaeth HD gydnabod argymhelliad EW. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn gwneud ymdrech sylweddol i ymgysylltu â grwpiau rhanddeiliaid ehangach ac i archwilio gwaith ymchwil pellach er mwyn datblygu dull gweithredu effeithiol o ran mapio strategol.

Gofynnodd RM i JJ sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi polisïau arfaethedig ynghylch y cynllun ac yn eu cyfleu'n glir i fanwerthwyr, a hynny yng ngoleuni'r ystod eang o reoliadau amgylcheddol presennol ac arfaethedig sy'n effeithio ar fusnesau, sy'n aml yn cael eu drysu o ran pa reoliadau sy'n berthnasol iddynt. Tynnodd HD sylw at yr adnoddau sydd gan Lywodraeth Cymru at ddefnydd busnesau ar hyn o bryd, gan gynnwys canllawiau a gwybodaeth am bolisïau presennol a pholisïau sydd yn yr arfaeth.

6. **Sylwadau i gloi**

Rhoddodd VH grynodeb o'r cyfarfod a diolchodd i bawb am fod yn bresennol.